

Cynllun Pensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg

Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

Dewis lleihau cyfraniadau CPLIL dros dro



Cwblhewch y ffurflen hon os hoffech ymuno ag adran 50/50 CPLIL. Bydd ymuno â'r adran 50/50 yn lleihau eich cyfraniadau pensiwn CPLIL dros dro gan 50%, a fydd hefyd yn lleihau eich buddion pensiwn gan 50%, o gymharu â'r buddion ym Mhrif Adran y cynllun. Fodd bynnag, ni fydd ymuno â'r Adran 50/50 yn effeithio ar eich cyfandaliad budd grant marwolaeth a buddion ymddeoliad iechyd gwael dan CPLIL 2014.

Darllenwch y nodiadau drosodd yn ofalus cyn gwneud eich dewis i leihau eich cyfraniadau a symud i'r adran 50/50. Os hoffech barhau, cwblhewch y ffurflen hon a'i **dychwelyd at Dîm Cyflogres eich Cyflogwr.**

Eich Manylion Personol									
Teitl: (ticiwch fel y bo'n briodol)	Mr		Mrs		Miss		Ms		Arall
Enw Llawn:									
Rhif Yswiriant Gwladol:					Dyddiad Geni:				
Cyfeiriad Cartref:									
					Cod Post:				
Rhif Ffôn:									
Cyfeiriad E-bost:									

Manylion eich Cyflogaeth	
Awdurdod Cyflogaeth:	
Isod, nodwch fanylion y swydd yr ydych iddi symud yn ôl i Brif Adran CPLIL. Nodwch os ydych am wneud hynny dan fwy nag un swydd, bydd rhaid i chi lenwi Ffurflen Dewis ar gyfer pob un o'ch swyddi.	
Rhif Cyfeirnod Cyflogres:	
Cyfeirnod y Swydd: (os yw'n berthnasol)	
Teitl neu Ddisgrifiad o'r Swydd: (os yn hysbys)	

Datganiad	
Deallaf y byddaf yn talu 50% o'r cyfraniadau pensiwn arferol, ac yn adeiladu 50% o'r buddion pensiwn arferol. Dan y rheolau Cofrestru Awtomatig bydd angen i fy nghyflogwr fy ail-gofrestru yn ôl i Brif Adran y CPLIL bob tair blynedd. Gallaf ddewis ail-ymuno â 'Phrif Adran' y cynllun ar unrhyw adeg drwy gwblhau'r ffurflen Dewis Ail-ymuno â Phrif Adran CPLIL..	
Ar ôl darllen y wybodaeth uchod a'r nodyn canllaw trosodd, hoffwn ail-ymuno ag adran 50/50 CPLIL o'r cyfnod tâl nesaf sydd ar gael. Byddaf yn dychwelyd y Ffurflen Dewis hon i fy Nghyflogwr.	
Llofnod:	Dyddiad:

DARLLENWCH Y NODIADAU CANLLAW HYN YN OFALUS CYN GWNEUD EICH DEWIS

Sut mae'r Opsiwn 50/50 yn gweithio?

Mae dwy adran yng Nghynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL) 2014. Ceir yr elfen arferol a elwir 'Y Brif Adran' a'r 'Adran 50/50'. Yn y Brif Adran rydych yn talu cyfraniadau arferol ac yn derbyn yr ychwanegiadau pensiwn arferol, a dan yr Adran 50/50, mae gennych yr opsiwn i dalu hanner eich cyfraniad arferol i gronni hanner eich pensiwn arferol yn ystod y cyfnod hwn. P'un a ydych yn cyfrannu dan y Brif Adran neu'r Adran 50/50, byddwch yn derbyn yswiriant bywyd llawn tra'n aelod o'r Cynllun.

Gallwch ddewis symud rhwng y Brif Adran a'r Adran 50/50 ar unrhyw adeg. Rhaid cyflwyno dewis yn ysgrifenedig trwy gwblhau'r ffurflen hon, ac mae'n rhaid dychwelyd y ffurflen i'ch **Cyflogwr**. Drwy gwblhau'r ffurflen hon rydych yn dewis cofrestru ar gyfer yr Adran 50/50. Er mwyn ail-gofrestru i'r Brif Adran, bydd angen i chi ofyn am ffurflen arall gan eich Cyflogwr. Os ydych yn cyfrannu at y CPLIL dan fwy nag un swydd, gallwch ddewis yr opsiwn 50/50 ar gyfer un, rhai neu bob un o'ch swyddi.

Am ba hyd y gallaf gyfrannu dan yr Adran 50/50?

Mae'r Adran 50/50 wedi'i dylunio i fod yn opsiwn tymor byr yn ystod cyfnodau o galedi ariannol. Mae gofyn i'ch cyflogwr eich ail-gofrestru yn ôl i Brif Adran y cynllun yn unol â dyddiad Cofrestru neu Ailgofrestru Awtomatig eich Cyflogwr. Bydd eich Cyflogwr yn rhoi gwybod i chi pryd bydd hyn yn digwydd. Os hoffech barhau gyda'r adran 50/50 bydd angen i chi wneud dewis arall. I gael rhagor o wybodaeth am hyn, cysylltwch â'ch Cyflogwr.

Os nodwch gyfnod o 'Dim Tâl' oherwydd salwch neu anaf, byddwch yn ail-gofrestru i Brif Adran y cynllun ar ddiwrnod cyntaf y cyfnod tâl nesaf sydd ar gael ar ôl i chi dychwelyd i'r gwaith. I barhau gyda'r adran 50/50 bydd angen i chi wneud dewis arall.

Gallwch ddewis mynd yn ôl i'r Brif Adran ar unrhyw adeg drwy gwblhau'r ffurflen Dewis Ail-ymuno â Phrif Adran y CPLIL. Yna byddech yn dechrau cynyddu buddion llawn yn y Brif Adran o'r cyfnod tâl nesaf sydd ar gael.

Sut fydd fy mhensiwn yn cymharu dan yr Adran 50/50?

ENGHRAIFFT (yn seiliedig ar dâl pensiwnadwy blynyddol o £18,000)		
	PRIF ADRAN	ADRAN 50/50
Cyfraniad Gros Blynyddol:	£1,044 (5.8%)	£522 (2.9%)
Cynnydd Pensiwn Blynyddol:	£367.35 (1/49)	£183.67 (1/98)
Yswiriant Bywyd:	£54,000 (3 x £18,000)	£54,000 (3 x £18,000)

Fydd y Dewis 50/50 yn effeithio ar y 'cyfraniadau ychwanegol' rwy'n eu talu ar hyn o bryd?

Os ydych yn talu cyfraniadau ychwanegol neu'n ystyried talu cyfraniadau ychwanegol yn y dyfodol, cysylltwch â'r **Adran Pensiwnau** i ddysgu mwy o ran sut y gall yr Adran 50/50 effeithio ar hyn.

Dylid dychwelyd ffurflenni wedi'u cwblhau i dîm cyflogres eich Cyflogwr.